



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

CALON

TÂN

RHIFYN
YR HAF
2026

DATHLU CADETIAID TÂN

TUDALEN 5



HER DIFFODDWR TÂN CYMRU

TUDALEN 8



DIWRNODAU
PROFIAD
TUDALEN 6

YMARFERIAD HYFFORDDIANT
YN FOLLY FARM
TUDALEN 14

DIGWYDDIADAU CYFFROUS
Y DYFODOL
TUDALEN 15




CYNNWYS

URDDAS MISLIF	3
Y TU HWNT I'R GALW: 30 MLYNEDD GYDA'N GILYDD	4
CADETIAID TÂN	5
DIWRNODAU PROFIAD	6
HER DIFFODDWYR TÂN CYMRU	10
CYFATHREBU'R RHANBARTHU	10
CHWARAEON A CHYMDEITHASOL	13
#DOETHIDANAUGWYLLT	14
DIGWYDDIADAU	15
CROESAWU'R GARFAN DIWEDDARAF	16
SWYDDI	18

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth ymateb brys i bron i 12,000 cilomedr sgwâr - bron i ddwy ran o dair o Gymru.

Dyma beth a'n cadwodd yn brysur y mis diwethaf:



GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU YN CYFLWYNO CYNHYRCHION URDDAS MISLIF YN Y GWEITHLE

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yn falch o gyhoeddi bod cynhyrchion Urddas Mislif [Grace & Green](#) wedi'u cyflwyno ym mhob cyfleuster toiled menywod ar draws y sefydliad, gan sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu cael gafael ar gynhyrchion mislif hanfodol tra yn y gwaith.

Daw ymuno â chynllun Urddas Mislif Grace & Green a chyfrannu at fwy o gynhwysiant ac ymwybyddiaeth o'r mislif gan fod 1 o bob 5 o fenywod yn y DU yn cael trafferth i gael gafael ar gynhyrchion mislif, gydag 85% o fenywod sy'n gweithio yn y DU yn adrodd straen neu bryder wrth reoli eu mislif yn y gwaith.

Mae'r fenter hon yn adlewyrchu ymrwymiad GTACGC i urddas, lles, cydraddoldeb a chynaliadwyedd yn y gweithle. Rydym yn cydnabod y gall cyfnodau annisgwyl neu heb eu cynllunio achosi straen neu anghysur, ac mae'r fenter hon wedi'i chynllunio i gynnig cysur a chefnogaeth ymarferol pan fydd ei angen.

Byddwn yn parhau i archwilio ffyrdd newydd o gefnogi ein pobl ac ymgorffori diwylliant sydd wedi'i wreiddio mewn parch, urddas a thegwch. Rydym yn canolbwyntio ar lunio dyfodol lle mae pob aelod o GTACGC yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso.



Y TU HWNT I'R GALW: 30 MLYNEDD GYDA'N GILYDD

Mae 2026 yn nodi 30 mlynedd ers sefydlu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC). Ffurfiwyd y Gwasanaeth pan ddaeth Brigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg at ei gilydd, ac mae wedi treulio tri degawd yn gweithio fel un i helpu i gadw ein cymunedau'n ddiogel.

I nodi'r garreg filltir hon, ym mis Tachwedd, byddwn yn dod at ein gilydd i gynnal digwyddiad cydnabyddiaeth unigryw arbennig, **Y Tu Hwnt i'r Galw: 30 Mlynedd Gyda'n Gilydd** – noson i gydnabod yr unigolion, y timau, y gwirfoddolwyr a'r partneriaid sydd wedi helpu i lunio a chryfhau ein Gwasanaeth a'n cymunedau.

Cyflwynwch eich cynigion
am gydnabyddiaeth nawr a
helpwch ni i ddathlu'r bobl
sy'n gwneud gwahaniaeth
go iawn >>

DARLEN MWY

Y TU HWNT I'R GALW

BEYOND THE CALL



MLYNEDD GYDA'N GILYDD
YEARS TOGETHER

**GWOBRAU CYDNABYDDIAETH
RECOGNITION AWARDS**



CADETIAID TÂN

EIN DYFODOL: DATHLU TAITH FFION O FOD YN GADET TÂN I FOD YN HYFFORDDWR GWIRFODDOL Y CADETIAID

Mae Cadetiaid Tân yn rhaglen ymgysylltu ieuencid gyffrous sy'n cynnig cyfle i bobl ifanc ymgysylltu â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ac ennill sgiliau bywyd dilys y gallant eu defnyddio yn y gweithle.

Yn ystod wythnos Gwirfoddoli (1-7 Mehefin), dathlodd Cadetiaid Tân Gorseinon garreg filltir falch wrth i'r Cadet Ffion Wilson nodi ei phen-blwydd yn 18 oed a chamu i rôl newydd sbon fel Hyfforddwr Cadetiaid Gwirfoddol.

Ymunodd Ffion â'r cadetiaid gyntaf yn 13 oed, gan ddod yn aelod ymroddedig a brwdfrydig o'r tîm yn gyflym. Yn 15 oed, aeth ymlaen i fod yn Gadet Graddedig, gan barhau i feithrin ei sgiliau, ei hyder a'i hangerdd dros y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Nawr, wrth symud i wirfoddoli, mae Ffion yn ymgorffori'n union yr hyn y mae Cynllun Cadetiaid a Gwirfoddolwyr GTACGC wedi'i gynllunio i'w gyflawni: ysbrydoli pobl ifanc, datblygu talent y dyfodol, a chreu llwybr i'r Gwasanaeth.

Mae nod nesaf Ffion eisoes o fewn golwg - gwneud cais i ymuno â'r criw Ar Alwad yng Ngorsaf Dân Gorseinon.



Dymunwn Ben-blwydd Hapus iawn i Ffion yn 18 oed a phob lwc i'r dyfodol.



DIWRNODAU PROFIAD



DIWRNODAU PROFIAD DIFFODDWYR TÂN

Yn gynnar ym mis Mehefin, cynhaliodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ddau Ddiwrnod Profiad i unrhyw un sydd â diddordeb mewn gyrfa yn y Gwasanaeth Tân.

Cynhaliwyd y sesiynau yng Ngorsafoedd Tân y Drenewydd a Hwlfordd, a rhoddodd gyfle i bobl archwilio'r ystod eang o rolau o fewn y Gwasanaeth a deall beth mae'r broses recriwtio Diffoddwyr Tân yn ei gynnwys.

Trwy gydol y dydd, ymunodd mynychwyr â sgwrsiau byr a sesiynau holi ac ateb ar lwybrau gyrfa, gofynion ffitrwydd ar gyfer Diffoddwyr Tân, a'r gwaith pwysig a wneir gan ein staff cefnogol.

Roedd yna hefyd ddigon o weithgareddau ymarferol, gan gynnwys ymarferiadau ysgol a thrin offer, fel y gallai cyfranogwyr gael teimlad o ochr ymarferol a chorfforol y rôl.

GWELD EIN DIWRNODAU PROFIAD NESAF



ALLECH CHI FOD YN DDIFFODDWR TÂN AR ALWAD?

Mae'n ffordd wych o wasanaethu'ch cymuned, dysgu sgiliau newydd, a bod yn rhan o dîm cefnogol, i gyd ochr yn ochr â'ch swydd, eich astudiaethau neu eich bywyd teuluol presennol.

- Gwnewch wahaniaeth gwirioneddol yn eich ardal leol
- Enillwch wrth ddysgu, gyda hyfforddiant a datblygu'n cael eu darparu
- Adeiladwch hyder a gwaith tîm trwy waith amrywiol, gwerth chweil

Oes gennych chi ddi-ddordeb? Cadwch lygad ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol am gyfleoedd recriwtio Ar Alwad.

DARLEN MWY



DIFFODDWYR TÂN YN CYSTADLU YN HER DIFFODDWYR TÂN CYMRU 2026


Ddydd Sadwrn, Mehefin 6ed, daeth Diffoddwyr Tân o bob cwr o'r DU ynghyd yn Abertawe i gystadlu yn Her Diffoddwyr Tân Cymru, a gynhaliwyd yn Arena Abertawe.

Yn ddigwyddiad a gynhelir yn flynyddol gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC), mae Her Diffoddwyr Tân Cymru yn dod â Diffoddwyr Tân o bob cwr o'r Deyrnas Unedig a thramor ynghyd i ymgymryd â chyfres o brofion corfforol a meddyliol heriol - pob un wedi'i gwblhau mewn cit tân llawn.

Roedd y digwyddiad yn cynnwys Pentref Diogelwch, a drefnwyd gan Dîm Diogelwch Cymunedol GTACGC ac yn cynnwys amrywiaeth o asiantaethau partner, gan gynnwys Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, y Groes Goch Brydeinig, Achub Mynydd, yr RNLI a mwy.

Cefnogwyd y digwyddiad gan Gadetiaid Tân Gorsaf Dân Seven Sisters, a weithiodd yn ddiflino i ailosod y cwrs rhwng pob ras drwy gydol y dydd. Er gwaethaf yr amodau tywydd heriol, dangosodd y Cadetiaid frwdfrydedd, ymroddiad a gwaith tîm gwych.

DARLLEN MWY





YMARFERIAD HYFFORDDI YN FOLLY FARM

Ddydd Mercher, 3 Mehefin, cynhaliodd criwiau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) o Arberth a Hendy-gwyn ar Daf ymarfer hyfforddi ym Mharc Antur a Sw Folly Farm.

Roedd y criwiau oedd yn rhan o Ymarfer Folly yn ymateb i efelychiad o dân mewn gweithdy ar y safle, gydag adroddiadau bod person yn sownd y tu mewn. Roedd ymarfer gyda'r Offer Anadlu yn gyfle gwerthfawr i ddiffoddwyr tân weithredu mewn amgylchedd realistig, gan brofi eu sgiliau

technegol a'u gallu i wneud penderfyniadau o dan bwysau. Cymerodd Heddlu Dyfed-Powys a staff Folly Farm ran hefyd, gan atgyfnerthu pwysigrwydd cydweithredu effeithiol rhwng sawl asiantaeth.

Mae ymarferion hyfforddi fel hyn yn hanfodol i sicrhau bod criwiau'n gwbl barod i ymateb i argyfyngau go iawn, lle mae pob eiliad yn cyfrif. Trwy ail-greu sefyllfaoedd cymhleth a risg uchel mewn lleoliad rheoledig, mae diffoddwyr tân yn gallu ymarfer gweithdrefnau critigol, datblygu hyder a dysgu o brofiad heb wynebu canlyniadau digwyddiad byw.

DARLLEN MWY



Y GOGLEDD



YMARFERIAD HYFFORDDI DIGWYDDIADAU MAWR WEDI'I GYNNAL YM MHRIFYSGOL ABERYSTWYTH

Cynhaliwyd ymarferiad hyfforddi aml-asiantaethol mawr ym [Mhrifysgol Aberystwyth](#) ddydd Mawrth, 16 Mehefin, gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC), [Heddlu Dyfed-Powys](#), [Gwasanaeth Ambiwylans Cymru](#), y [Fforwm Gwydnwch Lleol](#) a myfyrwyr y Brifysgol yn cymryd rhan.

Yn cynrychioli GTACGC roedd Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn ac Ar Alwad o Orsaf Dân Aberystwyth, gyda chefnogaeth Gweithredwyr Ystafelloedd Rheoli yn y Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Roedd yr ymarferiad hyfforddi yn efelychu digwyddiad dan bwysau uchel yn ystod protest, lle gyrrwyd tractor i mewn i brotestwyr a cherbydau cyfagos ar ôl i'r gyrrwr ddiodeff anhwylder feddygol. Creodd y senario nifer o ddiodeffwyr gydag amrywiaeth o anafiadau, gan gynnwys pobl wedi'u dal y tu mewn i'w cerbyd, gan greu amgylchedd realistig a heriol i griwiau weithio ynddo. Helpodd colur effeithiau arbennig ac anafiadau prosthetig a wisgwyd gan actorion i greu amgylchedd hyfforddi hynod realistig a throchol.

DARLLEN MWY



ENILLYDD CYSTADLEUAETH 'DIFFODDWR TÂN AM DDIWRNOD' YN YMWELD Â GORSAF DÂN PORT TALBOT

Ddydd Mawrth, 26 Mai, croesawodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) enillydd cystadleuaeth 'Diffoddwr Tân am Ddiwrnod', Elijah, 5 oed, i Orsaf Dân Port Talbot.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd Elijah gyfle i deithio mewn injan dân, defnyddio pibell olwyn, gweld y Peiriant ag Ysgol Ddrofwrdd ar waith, mynd trwy'r

babell fwg ac archwilio'r orsaf ochr yn ochr â Gwylfa Goch Port Talbot. Treuliodd staff Diogelwch Cymunedol Castell-nedd Port Talbot amser hefyd yn dysgu sgiliau diogelwch tân pwysig iddo ar gyfer y cartref, gan sicrhau bod y diwrnod yn hwyl ac yn addysgiadol.

Manteisiodd Elijah ar bob eiliad, gan greu argraff ar y criw gyda'i egni. Gan ychwanegu at y cyffro, ymddangosodd y masgot Sam Tân a Sbarc, gan roi atgof arbennig iawn i Elijah.

Llongyfarchiadau enfawr i Elijah, fe gafodd y diwrnod gorau, ac yn sicr fe roddodd y criwiau ar brawf!



DEWCH YN AELOD O GLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASOL GTACGC HEDDIW!

Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ei Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol ei hun. Os ydych chi'n aelod presennol o'r Gwasanaeth neu wedi ymddeol ohono, mae croeso i chi ymuno.

Mae'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol yn llwyfan ar gyfer cadw'n heini, cymdeithasu a chael hwyl. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys amrywiaeth o adrannau y gallwch ymuno â nhw, gan gynnwys:



Dyma'r logos swyddogol ar gyfer clybiau Chwaraeon a Chymdeithasol - am unrhyw ymholiadau logo cysylltwch â'n tîm graffeg

Rydym yn hollol gefnogol o ddechrau adrannau newydd, felly os nad ydych yn gweld camp neu weithgaredd cymdeithasol yr ydych yn ei fwynhau, beth am gysylltu â ni, a dechrau eich adran eich hun?

Dewch yn rhan o'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol am ddim ond £2 y mis a chynorthwyo i gynnal ein holl adrannau. Am fwy o wybodaeth am sut i ymuno, e-bostiwch Steven Philpot - s.philpott@mawwfire.gov.uk



GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

MAE BWRDD TANAU GWYLLT CYMRU YN EICH ANNOG I FOD YN #DOETHIDANAUGWYLLT Y GWANWYN A'R HAF HWN.

Mae Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru yn annog pawb i fod yn #DoethiDanauGwyllt trwy ddilyn ein cyngor diogelwch syml, ymarferol. Gall ychydig bach o ofal ychwanegol wneud gwahaniaeth enfawr, gan helpu i amddiffyn ein cefn gwlad syfrdanol a chadw cymunedau'n ddiogel rhag effaith ddiistriol tanau gwyllt.

Mae'r Bwrdd Tanau Gwyllt yn awyddus i weithio gyda'n cymunedau er mwyn creu tirwedd sy'n iachach ac yn fwy gwydn, a hynny trwy wella bioamrywiaeth ar gyfer ein dyfodol.

Nod ein hymgyrch #DoethiDanauGwyllt yw addysgu unigolion am yr arferion gorau o ran osgoi ac atal tanau gwyllt yng Nghymru.

Cofiwch - Os ydych allan yn mwynhau cefn gwlad a'ch bod chi'n gweld unrhyw weithgaredd amheus, f foniwch Crimestoppers yn ddienw ar 0800 555 111, neu f foniwch 101. Os yw'n argyfwng, f foniwch 999 bob tro.

Gallwch ddysgu mwy am #DoethiDanauGwyllt drwy fynd i [#DoethiDanauGwyllt](#)

GYDA'N GILYDD, GALLWN NI HELPŪ I ATAL TANAU GLASWELLT AC AMDDIFFYN EIN CEFN GWLAD.



DIGWYDDIADAU CYFFROUS Y DYFODOL!



Yn amrywio o ddiwrnodau agored llawn gweithgareddau i olchi ceir a diwrnodau profiad, mae rhywbeth at ddant pawb

4^{ydd} Gorffennaf - Golchfa Ceir Talgarth

4^{ydd} Gorffennaf - Diwrnod Agored Aberhonddu

18^{fed} Gorffennaf - Biker Down Cymru

19^{eg} Gorffennaf - Golchfa Ceir Aberdaugleddau

21^{ain} Gorffennaf - Diwrnod Agored Arberth

20^{fed} - 23^{ain} Gorffennaf - Sioe Frenhinol Cymru

29^{ain} Gorffennaf - Diwrnod Agored Doc Penfro

1^{af} - 8^{fed} Awst - Eisteddfod Genedlaethol Cymru

5^{ed} Awst - Diwrnod Agored Dinbych-y-Pysgod

17^{eg} Awst - Paned Gyda'r Criw Y Gelli Gandryll

19^{eg} - 20^{fed} Awst - Sioe Sir Benfro

29^{ain} Awst - Diwrnod Agored Hwlfordd

Mae yna groeso cynnes i bawb yn ein digwyddiadau cymunedol, gan gynnig cyfle gwyb i chi gysylltu â'ch diffoddwyr tân lleol a chefnogi'r digwyddiadau a arweinir gan y gorsafoedd.

Nodwch y dyddiadau yn eich calendrau a chadwch olwg ar ein tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol i gael y newyddion diweddaraf a manylion am y digwyddiadau.

Peidiwch â cholli allan ar y cyffro - dilynwch ni ar gyfryngau cymdeithasol neu ewch i'n [Tudalen Digwyddiadau](#), a gwahoddwch eich ffrindiau a'ch teulu.

Dilynwch ni ar



GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU YN CROESAWU'R GARFAN DIWEDDARAF O DDIFFODDWYR TÂN AR ALWAD

Ddydd Llun, Mehefin 29ain, cynhaliwyd Seremoni Cwblhau yng Ngorsaf Dân Y Drenewydd i ddathlu cyflawniadau'r garfan ddiweddaraf o Ddiffoddwyr Tân Ar Alwad.

Daeth y seremoni â theulu, ffrindiau a phersonél Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin

Cymru (GTACGC) ynghyd i ddathlu cyflawniadau arbennig 00 unigolyn sydd wedi cwblhau wythnosau o hyfforddiant trylwyr ac sydd bellach yn dechrau eu gyrfaedd yn gwasanaethu Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Perfformiodd y recriwtiaid newydd gyfres o arddangosfeydd ymarferiad iard yn tynnu sylw at y sgiliau ymateb brys y mae pob aelod newydd o'r criw wedi'u datblygu, ac yna cyflwynwyd tystysgrifau.

Maent bellach wedi'u paratoi a'u cyfarparu'n llawn i ddechrau eu gyrfaedd Ar Alwad yn eu Gorsafoedd Tân Lleol, lle bydd pob un ohonynt yn parhau â'u datblygiad wrth chwarae rhan hanfodol mewn ymateb i argyfyngau a gwaith ataliol i gadw eu cymunedau'n ddiogel.

Llongyfarchiadau a chroeso i GTACGC!





GWEITHIO GYDA NI!

Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

Buddion

- Cyfraddau cyflog cystadleuol - wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.1% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).
- Gwyliau Blynyddol hael - 26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.
- Cynllun Hyblyg - Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.
- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Cynllun benthycu offer TG Let's Connect
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Elusen Diffoddwyr Tân
- Parcio am ddim ar y safle
- Beico i'r Gwaith
- Cynllun disgownt i staff
- Iechyd a Lles



GWELD Y SWYDDI GWAG CYFREDOL



DIFFODDWYR TÂN AR ALWAD - MAE ANGEN CHI ARNOM!



Ydych chi'n byw o fewn 5-10 munud i'ch Gorsaf Dân leol?
Ar hyn o bryd mae gennym ni swyddi gwag ar gyfer diffoddwyr
tân ar alwad - ewch draw i'n gwefan i ddarganfod mwy!





Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

#MwyNaDimOndTanau #MoreThanJustFires



www.tancgc.gov.uk

CYLCHGRAWN CALON TÂN - RHIFYN YR HAF 2026